

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Cynorthwydd Gwasanaethau

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £25,185 - £25,583 y flwydyn

Oriau: 37 awr yr wythnos

Contract : Parhaol

Lleoliad: Club Rhyl

Am y Swydd

Fel Cynorthwydd Gwasanaeth Gwesteion, chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein cwsmeriaid . Mae gennym amrywiaeth o ddobarthiadau ffitrwydd o ymarfer corff i nofio, felly bydd cwsmeriaid yn edrych atoch chi am gyngor a gwybodaeth.

Mae eich rôl yn llawer mwy na chymryd archebion a phwyntio pobl i'r cyfeiriad cywir - chi fydd y wên gyfeillgar sy'n eu croesawu trwy'r drws, y ffynhonnell o wybodaeth am yr holl bethau hwyliog i'w gwneud, faint fyddan nhw'n ei gostio, a pha gynigion sydd gennym. Byddwch yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd, eu bod yn rhagori ar eu disgwyliadau, a bod eu cwestiynau'n cael eu hateb. Oherwydd chi, byddan nhw'n gadael gyda'r eisiau i archebu ymweliad arall.

Nid yn unig fyddwch yn wyneb yr atyniad, ond byddwch hefyd yn lais DLL ar gyfryngau cymdeithasol, trwy gynnal presenoldeb gweithredol ar ein sianeli ac yn ymateb i ymholiadau cwsmeriaid.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn dactlus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg/This document is also available in Welsh



Cynorthwydd Gwasanaethau

Amdanoch Chi

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol ac yn talu sylw gwyh i fanylder.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly mae angen rhywun sy'n gallu tawelu pobl, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwyh bob amser. Byddwch yn gallu dod o hyd i'r cyfuniad perffaith o broffesiynol, brwdfrydig a hynod gyfeillgar. Byddwch chi'n rhywun sydd wrth eich bodd yn gweld pobl eraill yn hapus, ac sy'n cael eich cymell gan helpu eraill. Rydyn ni i gyd yn gweithio fel tîm, #HamddenSirDdinbychYdymNi, ac felly byddwch chi'n rhywun sydd nid yn unig yn disgleirio ar eich pen eich hun, ond sydd hefyd yn helpu tîm i ddisgleirio gyda'ch gilydd.

Yn ddelfrydol bydd gennych rywfaht o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid, ond y peth pwysicaf i ni yw bod gennych chi agwedd cwsmer yn gyntaf. Mae gennym ni gymaint o weithgareddau hwyliog a chynigion gwyh ar draws y Cwmni, ac felly byddwch chi'n rhywun a all weld yr amseroedd cywir i siarad â chwsmeriaid am y rhain. Rydym wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Os ydych chi'n berson brwdfrydig, gydag awydd i helpu eraill, ac eisiau gweithio mewn Cwmni cyflym a hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn berffaith i chi.



Cynorthwyydd Gwasanaethau

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Clwb Rhyl, Hamdden y Rhyl, Ffordd Grange, y Rhyl, LL18 4BY

Dyddiad Cau: 08/09/2025

I ymgeisio: <https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/>

